Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.13 Ariannu lleol - Merthyr Tudful

Mae'r daflen wybodaeth hon wedi ei dylunio i ddarparu gwybodaeth am grantiau bychain sydd ar gael i grwpiau a mudiadau bychain o fewn y sector gwirfoddol ym Merthyr Tudful. Mae'r cofnodion sydd ar y daflen hon yn ganllaw cyffredinol; bydd y cysylltiadau sydd wedi eu rhestru yn medru rhoi mwy o wybodaeth fanwl i chi.

Dylid darllen y daflen hon ar y cyd â **Grantiau Bychain 7.4.1** sydd yn manylu'r grantiau bychain sydd ar gael ar lefel rhanbarthol neu ar lefel Cymru gyfan.

Cynllun Datblygu Gwledig (CDG)

Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru yn rhan o raglen Undeb Ewropeaidd newydd i hyrwyddo adfywiad economaidd ardaloedd gwledig. Mae'r CDG wedi ei anelu i gynorthwyo cymunedau, helpu i hybu eu heconomïau lleol drwy gefnogi busnesau lleol a mudiadau cymunedol a sector gwirfoddol, gwella gwasanaethau sylfaenol, cynlluniau gwella pentrefi, gwella'r amgylchedd lleol a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Mae'r ardaloedd gwledig o fewn Bwrdeistref Merthyr wedi eu cydnabod fel rhan bwysig o'r rhanbarth. Mae'r ardaloedd sydd yn cael eu hystyried yn gymwys fel Wardiau Gwledig yn cynnwys Bedlinog, Cyfarthfa, Bro Merthyr a'r Faenor. Mae Plymouth wedi ei dynodi fel ardal Canolfan Wasanaethau. Mae'r CDG yn rhoi'r cyfle i adeiladu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni eisoes yn yr ardaloedd yma a gwyntyllu posibiliadau newydd. Mae twristiaeth yn bwysig iawn o safbwynt economi leol yr ardaloedd yma gyda gwyliau twristiaeth gweithgaredd yn cynyddu mewn poblogrwydd tra ond yn effeithio'n andwyol mewn modd bach iawn ar yr amgylchedd. Mae yna gyfle hefyd i adeiladu ar y gwasanaethau ardderchog sydd yn cael eu darparu o fewn yr ardaloedd Gwledig ac i wneud y cymunedau lleol yn llefydd mwy deniadol a diogel i fyw ynddynt.

Mae yna dri phrif amcan yn deillio o Strategaeth Datblygu Lleol Merthyr a bydd pob un prosiect yn cydweddu ag o leiaf un o'r amcanion canlynol:
Treftadaeth a Diwylliant Cymreig
Cynhyrchu Bwyd, Crefftau a Gwasanaethau Lleol
Twristiaeth a Gweithgareddau Awyr Agored.

Am fwy o wybodaeth am y grantiau sydd ar gael, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r Swyddog Grantiau Datblygu Gwledig ar 01685 724919.

Cronfa Datblygu Merthyr Tudful

Mae Cronfa Datblygu Merthyr Tudful yn gronfa refeniw blynyddol y mae mudiadau gwirfoddol a chymunedol sydd yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn medru gwneud cais iddi am grantiau i gynorthwyo prosiectau sydd yn elwa pobl Merthyr Tudful.

Mae modd gwneud ceisiadau am grantiau rhwng £2,500 a £10,000. Mae'r Gronfa ar agor ar hyn o bryd ac yn cau ar 14 Rhagfyr 2011.

Cyswllt:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Sifig, Stryd y Castell,
Merthyr Tudful CF47 8AN
Ffôn: 01685 725309

Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol

Mae'r Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol (De Ddwyrain Cymru) yn gynllun grant hyblyg sydd yn cefnogi prosiectau sydd yn gweithredu o Ragfyr 2010 i Awst 2015 ac mae ar gael ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Mae cyllid ar gael ar gyfer ystod eang o fudiadau sydd yn meddu ar uchelgais i ddatblygu i mewn i fudiadau o fewn y trydydd sector sydd yn economaidd gynaliadwy h.y. mudiadau sector gwirfoddol a chymunedol, elusennau, mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a mentrau cydfuddiannol. Mae'r grant wedi ei anelu at gefnogi a datblygu cynaladwyedd yn y trydydd sector. Mae'n rhaid i brosiectau cymwys i gydweddu ag un o'r themâu canlynol:

• Cefnogi datblygiad gwasanaethau er budd y gymuned a'r economi lleol.
• Cyfleoedd ar gyfer ennyn sgiliau newydd a dysgu.
• Hyrwyddo datblygu cynaliadwy.
• Arddangos partneriaethau / prosiectau traws ffiniol.
• Gweithgareddau sydd yn datblygu ac yn gwella economïau lleol.
• Darparu a gwella asedau a gwasanaethau cymunedol.
• Hyrwyddo a darparu cynlluniau i fynd i'r afael â rhwystrau at gyflogaeth.
• Cynlluniau sydd wedi eu hanelu i ddiwallu anghenion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, ffisegol ac amgylcheddol pob un ardal.
• Prynu eiddo, adnewyddu adeiladau neu adeiladu o'r newydd.

Mae'r grantiau yn medru bod ar gyfer refeniw neu gyfalaf neu gyfuniad o'r ddau.
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda â:
Swyddog Grantiau Economi Cymdeithasol - Ffôn: 01685 727411

Cynllun Grantiau Bychain Ymddiriedolaeth Gymunedol Merthyr Tudful

Mae'r gronfa hon ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol bychain ar gyfer unrhyw ddiben elusennol (ac eithrio gweithgareddau crefyddol).

Ni fydd y grantiau sydd yn cael eu dyfarnu yn fwy na £200 fel arfer. Mae'r cais yn gorfod ymwneud â gweithgaredd sydd wedi ei leoli ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Gellir ond ystyried ceisiadau gan fudiadau sydd â'u hincwm yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn llai na £10,000. Mae gwahoddiad i wneud cais am gyllid grant yn cael ei gyhoeddi fel arfer yn flynyddol.

Cyswllt:
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol
89–90, Y Brif Stryd
Merthyr Tudful CF47 8UH
Ffôn: 01685 353900
enquiries@vamt.net

Grantiau Cyfalaf Bychain Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Wedi ei hariannu gan Raglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol Llywodraeth Cymru, mae'r gronfa yn cynnig grantiau hyd at £4,000 ar gyfer eitemau cyfalaf yn unig. Mae'r cynllun grantiau ar agor i fudiadau lleol sydd â'u buddiolwyr oddi mewn i Fwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae hyn yn cynnwys:

- mudiadau sydd ond yn gweithio mewn un ward neu un ardal o'r fwrdeistref
- mudiadau ar hyd a lled y fwrdeistref
- canghennau lleol o fudiadau cenedlaethol.

Nid yw mudiadau cenedlaethol eu hunain yn gymwys i wneud cais.

Mae'r cynllun yn croesawu ceisiadau gan grwpiau newydd. Fodd bynnag, bydd angen cyfansoddiad ar eich grŵp neu set o reolau a chyfrif banc yn ei enw ei hun gydag o leiaf dau lofnodwr (na sydd yn perthyn i'w gilydd)

Dylech fod yn medru gwario eich grant yn llwyr o fewn chwe mis i'w dderbyn. Os ydych yn canfod nad oes modd gwneud hyn, efallai y byddwn yn gofyn i chi ad-dalu'r rhan o'r grant na sydd wedi ei wario.

Pa fathau o brosiectau y mae modd eu hariannu?

Bydd pob math o brosiectau yn cael eu hystyried ar yr amod bod y prosiectau yn disgyn i mewn i ardaloedd blaenoriaeth y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol:

- Creu neu ailwampio'r cyfleusterau sydd ar gael i'r gymuned gyfan, neu eu haddasu er mwyn sicrhau mynediad cyfartal ar gyfer pobl anabl erbyn Hydref 2004, fel sydd ei angen o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

- Gweithredu er mwyn gwella'r amgylchedd naturiol neu sydd wedi ei hadeiladu ar gyfer pobl.

- Darparu cyfleusterau neu weithgareddau sydd yn lleihau tlodi, anghyfartaledd, gwahaniaethau ac anfantais gymdeithasol

- Gwella lles y gymuned drwy annog ffyrdd o fyw gweithgar ac iach. Hefyd, drwy annog pobl i rannu cyfrifoldeb ar gyfer cynnal iechyd a lles da, a hynny drwy wneud newidiadau syml a rhad i'w ffyrdd o fyw.

- Darparu cyfleusterau neu weithgareddau sydd yn cefnogi lleihau tlodi (gan gynnwys tlodi plant) ac allgáu ariannol, anghydraddoldeb, gwahaniaethau ac anfantais gymdeithasol

- Annog hyfforddiant ar gyfer pobl leol, yn enwedig, hyfforddiant sydd yn targedu pobl sydd yn agored i niwed neu wedi eu hallgáu ac yn cynorthwyo gyda hyrwyddo cyfleoedd am waith ac incwm cynyddol.

- Annog busnesau cymunedol a mentrau cymdeithasol.

- Cynorthwyo gyda hyrwyddo cyfleoedd am waith ac incwm cynyddol.

- Sicrhau bod pobl o bob oedran a gallu yn chwarae rhan yn y gymuned ac yn diwallu anghenion grwpiau sydd wedi eu hallgáu'n gymdeithasol.

- Cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol y gymuned

- Cryfhau materion Diogelwch Cymunedol ar gyfer y Gymuned

Y dyddiadau cau bob blwyddyn yw 30 Medi a 30 Ionawr fel arfer. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda â CGGM ar 01685 353900 neu enquiries@vamt.net

Cronfa Deddf Eglwys Cymru

Mae'r cynllun grant Cronfa Deddf Eglwys Cymru ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol sydd yn gweithredu yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae'n darparu cyllid i fudiadau sydd yn meddu ar ddibenion elusennol, a hynny ar gyfer gwariant cyfalaf yn unig.

Pwy Sydd yn Medru Gwneud Cais?

- Mae ceisiadau yn cael eu gwahodd gan Eglwysi, Capeli, Mudiadau Cymunedol ac Elusennau.
- Bydd ceisiadau ond yn cael eu hystyried gan fudiadau sydd yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr.
- Wrth ystyried ceisiadau gan fudiadau sydd yn bodoli er mwyn darparu gweithgareddau hobi ar gyfer eu haelodau, rhaid bod y cyfleusterau sydd yn cael eu darparu ganddynt ar gyfer holl aelodau'r cyhoedd fel y cyfryw a bydd unrhyw gymorth sydd yn cael ei roi tuag at brosiectau/gwariant cyfalaf ei natur gan y mudiad.
- Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i Eglwysi, Capeli a Mannau Addoli Cyhoeddus a phrosiectau na sydd yn fwy na £20,000.

Beth Mae'n Medru Ei Ariannu?

Mae ymgeiswyr yn medru gwneud cais am gymorth grant ar gyfer y dibenion canlynol:

- Cymorth ar gyfer Adeiladau Addoli a Chymunedol
- Eitemau bychain o gyfarpar
- Gwaith i gydymffurfio gyda'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
- Dibenion eraill sydd yn elwa'r gymuned

Beth Na All Gael Ei Ariannu?

- Costau cynnal a chadw arferol
- Costau caniatâd cynllunio
- Mudiadau sydd â thrwydded i werthu alcohol
- Nid yw costau ôl-weithredol h.y costau am waith sydd wedi ei wneud yn barod neu gyfarpar sydd wedi ei brynu cyn derbyn cynnig grant swyddogol, yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn ac ni ddylai gael ei gynnwys mewn unrhyw gais yr ydych am ei wneud.

Mae ymgeiswyr yn medru gwneud cais am **gostau cyfalaf** (gan gynnwys atgyweiriadau ac adnewyddiadau) ac o bosib yn medru derbyn y cyfraddau grant canlynol:

Categori	Uchafswm y Grant	Cyfraniad Arian Cyfatebol
Bychan	Hyd at £2,000	Dim
Mawr	Hyd at £10,000	O leiaf 50%

Nid oes yna ddyddiadau cau pendant ar gyfer ceisiadau; fodd bynnag, mae'r adnoddau ariannol sydd ar gael wedi eu cyfyngu.

Cyswllt:
Adfywio a Chynllunio
Lefel 5, Uned 3
Tŷ Pennant, Stryd Catherine, Pontypridd
CF37 2TB
Ffôn: 01443 495151

Os bydd eich prosiect yn llwyddiannus, noder os gwelwch yn dda y bydd taliadau ond yn cael eu gwneud ar ôl derbyn anfonebau **wedi i'r prosiect gael ei gwblhau.**

Cyngor Chwaraeon Cymru – Grant Cist Gymunedol

Mae'r Gist Gymunedol yn gynllun grant a ariennir gan Gyngor Chwaraeon Cymru, y Loteri Genedlaethol, sydd wedi ei ddylunio i annog mwy o bobl i ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn fwy aml. O dan y canllawiau newydd, mae uchafswm y grant sydd yn medru cael ei ddyfarnu wedi ei gynyddu i £1,000; fodd bynnag, os ydych yn glwb, mae modd i chi i nawr i wneud cais am £1,000 i ddatblygu'r clwb a £1,000 pellach ar gyfer mentrau iechyd/gweithgarwch corfforol o fewn eich clwb.

Mae modd defnyddio'r grant i gefnogi ymhlith pethau eraill:

- Prosiectau cerdded neu feicio
- Prosiectau i annog gweithwyr i ymgymryd â mwy o weithgarwch corfforol
- Recriwtio a datblygu gwirfoddolwyr, arweinwyr a hyfforddwyr
- Ymestyn clybiau chwaraeon sydd eisoes yn bodoli fel eu bod yn darparu gweithgareddau newydd
- Sesiynau hamdden i rieni tra bod eu plant yn hyfforddi mewn sesiwn clwb

Cyswllt:
Wendy Groves, Arwienydd Tîm,
Datblygu Chwaraeon
Ffôn: 01685 725408 wendy.groves@merthyr.gov.uk
neu Cyngor Chwaraeon Cymru
Ffôn: 0845 045 0904

Grantiau Cartrefi Dyffrynnoedd Merthyr

Gweledigaeth Cartrefi Dyffrynnoedd Merthyr (Merthyr Valleys Homes) yw 'parhau i ddarparu gwasanaethau ardderchog ac arloesol sydd yn gwella ansawdd cartrefi ein tenantiaid a'r gymuned ehangach.'

Mae'r weledigaeth a'r cyfeiriad sydd wedi eu gosod gan y Bwrdd yn cydnabod fod cyfrifoldeb cymdeithasol gan Gartrefi Dyffrynnoedd Merthyr i fuddsoddi mewn cymunedau lleol mewn ffyrdd a fydd yn gwella ansawdd bywydau y bobl. Ein nod yw y bydd y grant yn cynorthwyo cymunedau lleol i gyflawni eu hamcanion drwy weithredu polisi sydd yn agored ac yn atebol i'n trigolion. Cynigir bod cynllun grant yn cael ei ddarparu sydd yn meddu ar ddwy ffrwd ariannu:

Grant bychan hyd at £1,000 - bydd 10 grant ar gael bob blwyddyn.
Grant canolig hyd at £5,000 – bydd 5 grant ar gael bob blwyddyn.

Mae grant yn cael ei ddiffinio fel cais am arian gan grŵp sydd yn seiliedig yn y gymuned neu gan unigolyn i gefnogi digwyddiad penodol sydd yn cyflawni'r amcanion sydd yn cael eu rhestru isod (ar ddiwedd y wybodaeth nawdd).

Nawdd
Mae nawdd yn cael ei ddiffinio fel cais am arian gan grŵp sydd yn seiliedig yn y gymuned neu gan unigolyn i gefnogi digwyddiad penodol neu ddarparu gweithgareddau dros gyfnod penodol h.y. tair blynedd sydd yn cyflawni'r amcanion canlynol:

• Gweithgareddau neu brosiectau sydd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc
• Prosiectau sydd yn cynorthwyo i greu ymdeimlad o ysbryd cymunedol, cydlyniant, balchder a pharch
• Prosiectau sydd yn cynorthwyo i wella edrychiad cymdogaeth leol
• Prosiectau sydd yn cynorthwyo i wneud i bobl i deimlo yn fwy diogel a lleihau eu hofn o droseddau
• Prosiectau sydd yn cynorthwyo i adeiladu hyder a chapasiti trigolion lleol er mwyn sicrhau eu bod yn chwarae mwy o ran yn eu cymunedau lleol.

Am fwy o wybodaeth, ewch os gwelwch yn dda i:
www.mvhomes.org.uk/community/index.aspx?section

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329
Ffacs: 029 2043 1701
help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:31/10/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk